| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 23 Ionawr 2019 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Teitl:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran sut y mae'n darparu gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd mewn ysgogi gwelliant.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Darparu gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan yr Adain Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n galluogi'r Pwyllgor i fonitro perfformiad a chynnydd yr Adain Archwilio Mewnol yn ogystal â darparu crynodebau o adroddiadau'r Adain Archwilio Mewnol er mwyn i'r Pwyllgor dderbyn sicrwydd ar wasanaethau eraill y Cyngor a meysydd corfforaethol.

**3. Beth yw argymhellion yr adroddiad?**

Dylai'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiad, asesu cynnydd a pherfformiad yr Adain Archwilio Mewnol a phenderfynu a oes angen unrhyw sicrwydd pellach ar adroddiadau archwilio.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae adroddiad Atodiad 1 yn rhoi diweddariad fel ag yr oedd ar ddiwedd mis Rhagfyr 2018, yn ymwneud ag:

- Adroddiadau archwilio mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, h.y. Rheoli Risg, Caffael TG, y Gwasanaeth Cofrestru ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, Digolledu a Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir;
- Cynnydd gwaith Archwilio Mewnol hyd yma yn 2018-19;
- Cynnydd ar waith gwrth-dwyll gan gynnwys Tystysgrifau Cronfa'r Ysgol;
- Diweddariad ar berfformiad Archwilio Mewnol yn erbyn safonau wedi'u gosod; a
- Diweddariad ar gynnydd gydag Arfer Da CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn. Nid oes cyfraniad uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd rhai prosiectau yn y cynllun archwilio yn adolygu meysydd Blaenoriaeth Corfforaethol ac yn darparu sicrwydd ar eu darpariaeth.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol – nid oes penderfyniad na chostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?**
Dim angen.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Mae gwaith yr adain archwilio mewnol yn rhoi sicrwydd i'r cyngor mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli a lliniaru risgiau.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.